

papur priordy



**Duw fy Nêr, tyner wyt ti; - hynaws Dad
nos a dydd i'n porthi;
bob awr dy fawr glodfori,
boed yn waith ein bywyd ni.**

Iolo Morganwg

Gweler y rheswm dros y dewis hwn y tu mewn

**Rhifyn 324
PAPUR GORFFENNAF /AWST 2019
RHIFYN DWBL**

Gair gan Beti-Wyn

Seiclo

MAE Sir Gâr wedi bod yn blaster o faneri gwyrdd, melyn a gwyn unwaith eto dros yr wythnosau diwethaf a hynny er mwyn croesawu rownd derfynol ras feiciau menywod Egni OVO drwy'r Sir.



S'dim sbel fawr ers i Geraint Thomas a'i gyd-feicwyr rasio heibio'r Priordy, a'r tro hwn, tro'r menywod oedd hi.

Ac i'w croesawu a'u cefnogi, roedd miloedd o gefnogwyr brwd yn leinio'r hewlydd ar hyd y 79 milltir a oedd yn cychwyn o'r Felodrome ym Mharc Caerfyrddin, i fyny Dyffryn Tywi ac yn ôl I Barc Pembre.

Mae cartrefu dwy ras feiciau fawr a phwysig yn ein hardal dros y flwyddyn ddiwethaf yn sicr wedi magu awydd newydd mewn rhai, yn blant ac oedolion, i ysgwyd y llwch o'u beic, gosod aer ffres yn y teiars a bach o olew yn y manau priodol, cyn neidio ar ei gefn a chychwyn reidio.

Rhaid cyfaddef bod tipyn o lwch wedi crynhoi ar fy meic i erbyn hyn! Pwy a wŷr, falle daw'r awydd i'w ysgwyd dros yr haf - fe fyddai bach o dywydd sych yn help i godi awydd!

Ro'n i'n byw a bod ar fy meic pan o'n i'n blentyn, ac yn treulio oriau yn ei lanhau a'i drwsio.



Un cof sydd gennyf oedd y rhwystredigaeth fawr pan fyddai tsiaen y beic yn dod yn rhydd, a minnau ymhell o adre. Ond byddai dim byd gwaeth na'r tsiaen yn torri, a'r pin bach a oedd yn ei dal ynghyd yn mynd ar goll.

Mae'r tsiaen yn fy atgoffa am gadwyn o bobl yn cael eu cysylltu â'i gilydd gydag un pin i'w gwneud yn gyfan.

I ni sy'n perthyn i'r eglwys, Iesu Grist yw'r pin sy'n cadw dolenni'r gadwyn gyda'i gilydd.

PA gadwyn ydych chi'n perthyn iddi tybed? Ac yn bwysicach, pwy neu beth yw'r pin sy'n dal y cwbl ynghyd yn eich bywyd chi?



Gweddïwn

Arglwydd,
Gosodaf fy nwylo yn dy rai di;
Gosodaf fy ewyllys yn dy un di;
Gosodaf fy nyddiau yn dy rai di;
Gosodaf fy meddyliau yn dy rai di;
Gosodaf fy nghalon yn dy un di;
Gosodaf fy mywyd yn dy un di.

Amen



DARLLENIADAU



Mis Gorffennaf	Darlleniad
Wythnos 1	Luc 10: 1-11;16-20
Wythnos 2	Luc 10: 25-37
Wythnos 3	Luc 10: 38-42
Wythnos 4	Luc 11: 1-13
Mis Awst	Darlleniad
Wythnos 1	Luc 12: 13-21
Wythnos 2	Luc 12: 32-40
Wythnos 3	Luc 12: 49-56
Wythnos 4	Luc 13: 10-17

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad
JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 27 Medi 2019

Festri'r Priordy 9.30 tan 12.00

Mynediad am ddim



Stondinau Cynnyrch Cartref a Raffl

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad at y raffl neu'r stondin cacennau cysylltwch ag Alison Parsons, os gwelwch yn dda



‘Agor y Gair’



*Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin*

**Boreau Mercher 9, 16, 23 Hydref a 6 Tachwedd 2019
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a'r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY


BORE IAU 26 Medi 2019

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



O'R WASG – MIS MEHEFIN




Y Tir Ysgythrog
Cyfrol o Wasanaethau
Desmond Davies
Mehefin 2019
Cyhoeddiadau'r Gair
£9.99

Deunaw o bregethau cyflawn,
 awgrymiadau o ddarlleniadau Beiblaidd
 addas, gweddi gysylltiol a rhestrau o
 emynau priodol. Yn cyffwrdd â themâu
 cyfoes ac yn edrych tuag ar rannau o'r
 Beibl am arweiniad a maeth ysbrydol
 i'n dydd

Tynged Cenedl
Cenedlaetholdeb
Cristnogol
Rhys Llwyd
Mehefin 2019
Cyhoeddiadau'r Gair
£9.99

Astudiaeth o Genedlaetholdeb
 Cristnogol y diweddar Athro Dr R
 Tudur Jones (1921-1998)
 Mewn oes pan fo syniadau am
 hunaniaeth, cenedlaetholdeb a ffydd
 yn cynhyrchu gwleidyddiaeth
 adweithiol, y bwriad yw cynorthwyo
 Cristnogion heddiw i graffu ar eu
 syniadau gwleidyddol o safbwynt
 diwinyddiaeth Gristnogol





Eisteddfod

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019



Eisteddfod

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu eleni yn Eisteddfod yr Urdd ar bob lefel ac yn enwedig i'r rhai isod a fu'n fuddugol yn y Genedlaethol.

Osian Hayes	Côr Ysgol Teilo Sant	2
Jona Marks, Jac Davies	Aelodau o Dîm Creu Gwefan Ysgol y Dderwen	3
Siwan Jones	Unawd Merched B7-9	3
Jac Thomas	Dawnsio Gwerin – Adran Hafodwenog	3
Siwan Jones, Gwenllïan Jones, Erin Roderick	Parti Cerdd B7-9 Ysgol Bro Myrddin	3
Iestyn O'Leary, Steffan Jones	Côr Bechgyn B13 ac Iau Ysgol Bro Myrddin	3
Catrin Owen, Lleucu Owen, Sara Llwyd, Steffan Jones, Gareth Jones	Côr SATB B13 ac Iau Ysgol Bro Myrddin	2
Sara Llwyd	Grŵp Cerdd Dant B10 a dan 19 Ysgol Bro Myrddin	1
Catrin Owen, Rhiannon Jones, Sara Llwyd, Lleucu Owen	Côr Cerdd Dant B13 ac Iau Ysgol Bro Myrddin	1
Lleucu Owen, Sara Llwyd	Grŵp Llefaru B10 a dan 19 Ysgol Bro Myrddin	2

GWASANAETH HAF CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

Dydd Gwener 21 Mehefin 2019

Lliwiau oedd thema briodol myfyrdod Beti-Wyn yng Nghartref Plas-y-dderwen ar fore diwrnod hiraf y flwyddyn hynod o heulog a lliwgar.



Dechreuodd gyda melyn, lliw'r haul ac arwydd o oleuni, cyn mynd ymlaen at oren, llwyd, gwyrdd, glas, brown, gwyn a phorffor gan dynnu'n sylw at

nodweddion arwyddocaol sy'n perthyn i bob un ohonynt, cyn cyrraedd uchafbwynt gyda'r lliw coch - arwydd o gariad Duw tuag atom. A chlywsom y darlenniad yn 1 Corinthiaid 13 sy'n amlygu fel mae cariad yn goron ar bopeth a Christ a'i Eglwys yn ymgorfforiad ohono.



Diolch i Beti-Wyn a Catrin Tomos am ein harwain ac i Mai Thomas am gyfeilio wrth yr organ. Roedd canu grymus gan y gynulleidfa'n cynnwys y trigolion, perthnasau ac aelodau'r Ofalaeth ac eglwysi a chapeli eraill yn y cylch.

ROEDD yn achlysur arbennig gan mai'r cyfarfod hwn oedd y cyntaf i'w gynnal yn lolfa'r Cartref ar ei newydd wedd a'r ystafell wedi'i haddurno a'i charpedu mewn lliwiau diddorol a chynnes. Diolch i Martha Denhan, Cynorthwydd Gweithgareddau'r Cartref, a staff eraill am baratoi paned a chacennau hyfryd ar ein cyfer. Drwy gyd-ddigwyddiad, roedd eising amryliw'n harddu'r cacennau bach blasus hyn a buan y diflannodd y cyfan! Ond bydd profiad y bore'n aros am amser hir!



Dr Huw Michael...

Newid Hinsawdd - 3

Yr olaf o dair erthygl yn ymwneud â'r pwnc pwysig hwn.

Y dyfodol ar lefel byd-eang.




Y mis diwethaf buon ni'n ystyried yr ymdrechion ym Mhrydain i leihau allyriadau carbon. Gwlad fach yw Prydain sy'n gyfrifol am tua 1% o allyriadau carbon ar lefel byd eang. Felly dyw ymdrechion Prydain ar ei phen ei hun ddim yn mynd i wneud unrhyw wahaniaeth os na fydd gwledydd mwya'r byd (Gogledd America, Tsieina, India) yn cymryd camau cymharol.

Wrth gwrs, y gwledydd mwyaf eu poblogaeth gyda'r economïau mwyaf sy'n gyfrifol am fwyafir allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd. Dyma allyriadau CO₂ blyneddol rhai o'r gwledydd mwyaf:

Gigatonne CO₂ y flwyddyn (2017)

		%
Tsieina	10.8	29
UDA	5.1	14
India	2.5	6.7
Siapan	1.3	3.5
Almaen	0.80	2.2
Canada	0.62	1.7
Prydain	0.38	1.0
Eidal	0.36	1.0
Ffrainc	0.32	0.9
		60%



Wrth gwrs gellid disgwyl fod y gwledydd datblygedig lleiaf yn gwneud llai o gyfraniad i'r cyfanswm na'r gwledydd mwyaf. Felly, mae'n werth edrych ar allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen o'r boblogaeth efallai, i ddeall sut mae Prydain yn cymharu gyda gwledydd eraill datblygedig.

Dyma allyriadau nwyon tŷ gwydr blyneddol yn ôl tunnell y pen o'r boblogaeth (2017)

Canada	20.6	Prydain	7.8
UDA	19.8	Eidal	6.5
Siapan	10.5	Ffrainc	5.8
Almaen	10.3	India	1.7
China	8.8		

Gallwch weld ar unwaith fod allyriadau y pen Prydain yn gymharol isel. Gwledydd gogledd America sydd ymhlith y troseddwy'r gwaethaf a Tsieina'n prysur dal lan. Mae llai na 40% o drydan UDA yn dod o ffynonellau adnewyddadwy a niwclear. Mae nwy yn raddol disodli glo ond mae glo'n dal yn gyfrifol am dros 25% o drydan UDA. Nwy naturiol sy'n cael ei ddefnyddio gan fwyaf i wresogi tai UDA. Mae Tsieina'n dibynnu ar bwerdai glo am 60% o'i thrydan ar hyn o bryd ond mae disgwyl y bydd y twf yn y galw am drydan dros yr ugain mlynedd nesaf yn cael ei fodloni gan fwyaf gan dyrbinau gwynt, paneli solar a systemau hydroelectric - felly mae'n symud yn y cyfeiriad cywir, er y bydd yn parhau i ddefnyddio'u pwerdai glo. Mae'r Almaen yn dal i ddefnyddio canran sylweddol o lo i gynhyrchu trydan ar ôl torri lawr ar ynni niwclear o ganlyniad i drychineb Fukushima, Japan yn 2012. Mae Ffrainc ar y llaw arall yn cynhyrchu'r rhan helaeth o'i thrydan o ynni niwclear ac felly yn is na Phrydain o ran allyriadau. Sylwch fod India'n isel iawn o ystyried allyriadau y pen o'r boblogaeth, ond maen nhw'n prysur gynyddu o flwyddyn i flwyddyn ar ôl adeiladu nifer fawr o bwerdai glo cynhenid yn y blynyddoedd diwethaf yn eu hymdrech i ddarparu trydan i fwy o'i phoblogaeth.

Pa mor ymarferol felly yw diddymu allyriadau carbon ar lefel byd eang erbyn 2050, oherwydd dyna fyddai'i angen i gyfyngu'r cynnydd yn rhyngwladol y byd i 1.5°C, yn ôl y gwyddonwyr hinsawdd?

Gadewch i ni gael ystyried y cyd-destun economaidd. Ystyriwch fod y rhagolygon yn dangos poblogaeth y byd yn cynyddu ryw 20% rhwng 2016 a 2040 (h.y. o 7.2 Biliwn i 9.4 Biliwn). Dros yr un cyfnod mae disgwyl bydd y CDG (Cynnyrch Domestig Gros) (h.y.. Gross Domestic Product = GDP - mesur o faint yr economi) byd-eang yn dyblu. O ganlyniad, bydd CDG y pen yn cynyddu'n sylweddol yn enwedig yn y gwledydd sy'n datblygu (Tsieina, India, a De-ddwyrain Asia'n benodol). Mae disgwyl y bydd biliynau o bobl yn ymuno â'r dosbarth canol byd-eang. Mae astudiaethau'n rhagweld y bydd y galw am ynni'n cynyddu ryw 25% erbyn 2040. Mae'n debygol y bydd angen pob ffynhonnell ynni economaidd i gadw lan â'r twf sylweddol yma.



Gyda'r twf yn y boblogaeth dosbarth canol yn fyd-eang bydd mwy o bobl yn berchen ceir, mwy eisiau AC (peiriannau cyflyru'r awyr) i gadw'u tai'n gysurus, mwy eisiau peiriannau sy'n hwyluso bywyd (peiriant golchi, oergell, teledu ac yn y blaen). Ystyriwch taw ynni sy'n gyrru economi gwledydd y byd. Sut mae cysoni cwtogi ar ddefnydd olew a nwy a gwella safon byw ar yr un pryd yn y gwledydd sy'n datblygu? Bydd polisïau llywodraethau'n allweddol.

Gallwn ystyried beth sy'n debyg o ddigwydd yn y gwahanol sectorau sy'n defnyddio ynni.

Trafnidiaeth. Un canlyniad i filiynau o bobl yn ymuno â'r dosbarth canol byd eang yn y chwarter canrif nesaf yw y bydd yn arwain at fwy o deithio, mwy o geir ar yr heolydd a mwy o weithgaredd masnachol. Gan fod



effeithlonrwydd cerbydau'n gwella, a cheir trydan yn dechrau disodli ceir petrol / diesel i raddau, mae'n bosib y gwelwn ni'r galw am betrol / diesel ar gyfer trafnidiaeth ceir yn dechrau gostwng erbyn 2030. Mae hyn yn mynd i ddibynnu i raddau helaeth ar bolisiau llywodraethau i roi cymhelliad ariannol i ywyr i brynu ceir trydan ac ar gynhyrchwyr ceir i ddatrys anawsterau aildrydanu a phellter

teithio cyn bod angen aildrydanu. Bydd yn cymryd mwy o amser i newid lorïau trwm i fod yn gerbydau trydan, fodd bynnag, gan fod maint a phwysau batrïau, y pellter cyn bod angen aildrydanu, a'r amser i aildrydanu'n rhwystrau sydd ymhell o gael eu goresgyn eto. Felly'r tebygrwydd yw y bydd lorïau, yn enwedig lorïau mawr, yn dibynnu ar danwydd diesel am ddegawdau i ddod. Yn yr un modd gydag awyrennau, byddant yn ddibynol ar danwydd olew (kerosene) i'w pweru am ddegawdau eto.

Cartrefi ac adeiladau masnachol. Wrth i boblogaeth y byd gynyddu a chyfoethogi, bydd angen mwy o ynni i ddarparu trydan i gartrefi, swyddfeydd, ysgolion, siopau ac ysbytai. Bydd y cynnydd mwyaf yn y gwledydd sy'n datblygu fel Tsieina, India, De Ddwyrain Asia gyda thwf y dosbarth canol yn y gwledydd yma



Diwydiant. Mae diwydiant erioed wedi bod yn ddibynol ar gyflenwad ynni, a bydd hyn yn parhau'n wir yn y dyfodol. Mae pob math o ddiwydiant yn ddibynol ar ynni e.e. gweithfeydd dur, prosesu bwyd, cynnyrch fferylliaeth, ffermio, cynhyrchu cerbydau ac yn y blaen. Mae galw cwsmeriaid am gynnyrch diwydiant yn debyg o gynyddu yn y dyfodol a'r her fydd moderneiddio'r math o ynni sy'n cael ei ddefnyddio yn y sector hwn, e.e. newid i ynni glanach fel trydan a nwy naturiol.



Mae nifer o ffynonellau'n cael eu defnyddio i gynhyrchu trydan: glo, nwy naturiol, ynni niwclear ac ynni adnewyddadwy fel gwynt, solar a hydroelectric. Wrth i ddefnydd o drydan gynyddu, bydd y math o danwydd a ddefnyddir i'w gynhyrchu'n debygol o newid yn fyd-eang i adlewyrchu polisiau sy'n ceisio ymateb i newid yr hinsawdd a gwella cyflwr yr awyr. Mae'n debygol felly y bydd y twf yn y galw am drydan yn cael ei ddiwallu gan gynydd yn y defnydd o dyrbinau gwynt, paneli solar, ynni niwclear a thyrbinau nwy naturiol. Bydd datblygu technoleg i dynnu'r CO₂ allan o nwyon llosg (exhaust gases)



pwerdai glo, pwerdai biomass a thyrbinau nwy'n allweddol i gyrraedd targedau gostwng allyriadau CO₂.

Mae'r her o gwrdd â'r galw am ynni wrth ymateb i'r pryder am newid yr hinsawdd yn un hynod anodd ac yn un real. Mae'n real yn yr ystyr fod biliynnau o bobl eisïau ynni fforddadwy bob dydd, ac yn anodd dros ben am fod gan bobl a llywodraethau ym mhob gwlad flaenoriaethau gwahanol ac adnoddau ariannol cyfyngedig i'w cyflawni i gyd. Bydd cyflenwi mwy o ynni wrth ymateb i her newid yr hinsawdd yn galw am ffyrdd o fynd ati sy'n ymarferol heb olygu costau llethol.

Gyda llywodraethau gwledydd y byd y bydd y cyfrifoldeb. Bydd angen datblygu a gweithredu polisiau sy'n canolbwyntiau ar ddulliau rhesymol o ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr, gyda'r nod o wella safonau byw eu pobl a gostwng allyriadau ar yr un pryd.

Yn ogystal â chymryd camau i geisio cyfyngu maint y newid yn yr hinsawdd, bydd yn bwysig hefyd i liniaru rhai o effeithiau neu ganlyniadau newid hinsawdd e.e. peryglon llifogydd; erydu'r arfordir; peryglon iechyd yn tarddu o hafau twymach; perygl prinder dŵr; perygl i gynnyrch bwyd; posiblwydd o glefydau a phlâu newydd yn effeithio arnom. Cyfrifoldeb llywodraethau fydd ystyried hyn oll a chynllunio'n addas ar gyfer y posibiladau yma.

Un o agweddau dyrys newid yr hinsawdd yw na allwn fod yn hollol sicr o'n heffaith ni arno. Ar y llaw arall, arall allwn ni ddim aros i weld achos erbyn hynny bydd hi'n rhy hwyr i gymryd camau. Gellir edrych ar yr angen i gymryd camau nawr fel polisi yswiriant i warchod y byd fel ag y mae ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod.



I geisio ateb y cwestiwn a fydd gwledydd y byd yn debyg o lwyddo i gyfyngu'r cynnydd yn nhymeredd y byd i 1.5 °C neu hyd yn oed 2°C, nid yw'r argoelion yn edrych yn dda o gwbl hyd yn hyn, yn ôl y wybodaeth sydd wedi'i chasglu gan UNFCCC yn dilyn Cytundeb Paris yn 2016. Er gwaethaf y twf mewn ynni adnewyddadwy dros y blynyddoedd diwethaf, cynyddu o 2% wnaeth allyriadau CO₂ yn 2018. Bydd angen polisiau llawer mwy uchelgeisiol gan wledydd mwya'r byd, a datblygu technoleg newydd yn gyflymach ac yn fwy fforddadwy i gael unrhyw obaith o ddod yn agos at y nod.

Mae'n diolch yn fawr i'r Dr Huw Michael am y gyfres ddiddorol ac addysgiadol hon a ymddangosodd yn ein papur yn ystod y tri mis diwethaf ar bwnc mor bwysig a chyfoes.

CYMORTH CRISTNOGOL



Casglodd y Priorddy £610 at Cymorth Cristnogol wrth fynd o dŷ i dŷ yn ystod wythnos yr apêl. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu, i Eirlys Jones a Rhian Evans am drefnu ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.



BYWYD I BAWB APÊL MADAGASGAR UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG



Cyfanswm Rhodd y Priorddy at yr
Apêl hon oedd
£2,810.00.

Mae'n swm anrhydeddus iawn a diolch i bawb a gyfrannodd
mewn unrhyw fodd (gan gynnwys mentrwr
y sip!).

Diolch hefyd i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.



PRIODAS FFUG

Bu cyfle i ddisgyblion B9
Ysgol Gymraeg Bro
Myrddin ddysgu mwy am
un o ddefodau pwysig yr
eglwys drwy gynnal
priodas ffug yn y Priorddy'n
ddiweddar dan arweiniad
ein Gweinidog

DAU WASANAETH ARBENNIG AR BRYNHAWN SUL OLAF MIS MEHEFIN

YN Y PARC

CYNHALIWYD Gŵyl Hirddydd Haf ym Mharc Caerfyrddin dan nawdd Capeli Presbyteriaidd y cylch gyda chroeso i bawb ymuno.



Yn dilyn Gweddi Agoriadol a Chroeso gan Dafydd Evans, Meidrim, cymerwyd rhan gan gapeli Cwmdwyfran, Bancyfelin, Moreia Llansteffan, Babell Zion Newydd, Tŷ Hen a Trinity Sanclêr ar ffurf darlleniadau amrywiol a gweddi. Hefyd, cafwyd eitemau gan blant Babell Zion Newydd (emyn) a Phlant Tŷ Hen a Bancyfelin. (Hanes Galw'r Pedwar Pysgotwr).

Roedd neges Emyr Williams, Meidrim, yn clymu gwahanol elfennau'r gwasanaeth ynghyd yn effeithiol. Fel mae gwahanol gynhwysion, o ddod at ei gilydd, yn gallu cynhyrchu rhywbeth bwytdwy a blasus iawn, mae pobl wahanol i'w gilydd, fel disgyblion Iesu gynt, o gydweithio, yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr.



Diolch i Helen Gibbon a hefyd Emyr Williams am drefnu'r gwasanaeth ac i Carol Rees wrth yr allweddellau.

Bu staff y Parc yn gymwynasgar yn ôl eu harfer a chawsom brynhawn o haf cynnes a sych gyda phawb wedi mwynhau a derbyn bendith.

YN Y TABERNACL

Daeth cynrychiolaeth deilwng i Wasanaeth a The Amnest sy'n ddigwyddiad blynyddol yn y Tabernacl. Fe'i trefnwyd mewn cydweithrediad â Chell Caerfyrddin o Amnest a Chell Caerfyrddin o Gymdeithas y Cymod.



Yn y rhannau arweiniol tynnodd Y Parchedig Peter Cutts ein sylw at gerflun o'r Crist Arteithiedig gan Guido Rocha, Brasil. Cafodd yntau'i arteithio a chreodd y cerflun hwn flynyddoedd yn ddiweddarach gan ddweud mai'i unig gysur pan oedd mewn

poen difrifol oedd gwybod fod Crist yn dioddef gydag e. Ran amlaf, darlun neu gerflun ychydig yn fwy glanwaith sy'n portreadu'r croeshoeliad ond mae cerflun Rocha'n hollol gignoeth ac yn ysgwyd rhywun i'r carn.



Amnest Rhyngwladol yw'r sefydliad sy'n ymgyrchu i sicrhau na chaiff hawliau pobl eu cam-drin ac, os cânt eu cam-drin, i sicrhau y gwneir rhywbeth yn ei gylch. Yn anffodus, mae cam-drin hawliau dynol yn rhemp a rhoddir llawer yn y carchar oherwydd yr hyn maent yn ei feddwl neu'n ei gredu. Mae Cell Amnest Caerfyrddin yn anfon llythyron a chardiau at y bobl anffodus hyn a hefyd at yr awdurdodau perthnasol yn pwysu arnynt i barchu hawliau dynol.

Esboniodd Elaine Edwards, aelod o Amnest a Chymdeithas y Cymod, fod y cardiau sy'n cael eu hanfon drwy Amnest y tro hwn yn cynrychioli tair agwedd ar waith yr elusen. Yn gyntaf, anfonwyd cerdyn dros unigolyn, sef Atena Daemi, Iran, a garcharwyd am siarad yn erbyn y gosb eithaf. Yn ail anfonwyd cerdyn ar ran grŵp o wragedd, sef un ar ddeg ohonynt o Saudi Arabia a garcharwyd am brotestiodros hawliau merched. Yn drydydd, anfonwyd cerdyn post yn erbyn cwmni, sef

TripAdvisor, yn gofyn iddo dynnu'n ôl o aneddiadau anghyfreithlon Israel ym Mhalesteinia gan fod ei weithgarwch yn andwyo hawliau dynol.



MWYNHAWYD Te Amnest gyda'n gilydd, yn cynnwys cacennau blasus dros ben, a chawsom gyfle i gyfrannu at gostau anfon y cardiau. Diolch i Lyn Cutts am gyfeilio ac yn arbennig i Iris Owen, am ei gwaith trefnu.

Dyddiadau a Lleoliadau'r Cwrdd Chwarter yn 2019

12 Medi, 4.00 a 7.00pm – Hermon

28 Tachwedd, 10.30am a 1.30pm - Henllan Amgoed

**Dathlu
Canmlwyddiant ers
Sefydlu Bridfa
Blanhigion Cymru yn
Aberystwyth**



“Ond syrthiodd peth o'r had ar bridd da. Tyfodd cnwd da yno – beth ohono gan gwaith, chwe deg gwaith neu dri deg gwaith mwy na chafodd ei hau.” Mathew 13; Adnod 8.

Mae'n siŵr bod pawb yn cofio Dameg yr Heuwr, lle roedd yr hadau a laniodd ar y pridd ffrwythlon yn cynhyrchu cnwd da. Wel, ers canrif bellach, mae gwyddonwyr yn IBERS - *Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig*, (neu WPBS fel oedd yn cael ei adnabod gynt) wedi bod yn ceisio gwneud yr un peth. Maent wedi ymchwilio ac arbofi i sicrhau bod prif gynhyrchion bwyd ein byd - grawnfwydydd fel gwenith, ceirch a barlys, yn cynhyrchu cnwd da i fwydo'r boblogaeth gynyddol, a hynny mewn amgylchedd a hinsawdd sy'n gyson newid. Mae'n dipyn o her.

Sefydlwyd yr Athrofa ar ei wedd gwreiddiol ar gampws Penglais. Hwn oedd yr adeilad cyntaf i'w leoli yno, ond erbyn hyn mae wedi ei gysgodi gan lu o adeiladau eraill megis Canolfan y Celfyddydau a Neuadd Pantycelyn.



Ym 1953, prynwyd Plas Gogerddan, hen gartref teulu'r Prysiaid, ac yno ymgartrefodd y Fridfa, ei labordai pwrpasol a

digonedd o dir i gynnal treialon maes. Mae yno o hyd.



Heb os, mae'r Fridfa fyd-enwog wedi gwneud cyfraniad anferth at wella glaswelltiroedd ar draws y blaned. Mae'r technegau bridio a ddatblygwyd yno, a'r planhigion sy'n medru ymdopi

gyda sychder, oerfel a phlau a grëwyd yno, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr at wella ansawdd a chynnyrch bwyd. Profwyd gwerth hyn yn arbennig yn dilyn yr Ail Ryfel Byd pan oedd angen cynhyrchu bwyd i ddiwallu anghenion poblogaeth oedd yn tyfu'n gyflym.

Erbyn hyn mae'r Fridfa'n ystyried sut i ddefnyddio sgîl-gynhyrchion prosesau cynhyrchu i greu plastigion sy'n garedig i'r amgylchedd a nifer helaeth o ddeunyddiau eraill. Yn ddiweddar, agorwyd banc hadau enfawr lle mae'r hadau sy'n cael eu casglu ledled y byd yn gallu cael eu storio mewn cyflwr hyfwr am ddegawdau.

Un sydd â chysylltiad hir a chlos â'r Athrofa yw un o aelodau'r Priordy sef Des Hayes. Cyrhaeddodd Aberystwyth fel myfyriwr i'r Adran Botaneg

Amaethyddol ym 1949; dychwelodd fel aelod o staff y WPBS rhwng 1955 a 1977, ac yna bu'n Bennaeth Adran Amaeth y Brifysgol o 1979 tan ymddeol ym 1994. Mae'n amlwg bod y Sefydliad yn agos iawn at galon Des, a'i fod yn falch iawn ohono.



Yng nghanol Mehefin eleni, cafodd Des gyfle i nodi Canmlwyddiant y Fridfa drwy gyflwyno mainc a osodwyd y tu allan i brif fynedfa IBERS yng Ngogerddan. Bu

hyn yn gyfle iddo gydnabod pwysigrwydd Prifysgol Aberystwyth ac IBERS yn ei fywyd, ac i ddiolch am y cyfleoedd, y boddhad a'r cyfeillgarwch a gafodd trwy gydol ei yrfa. Mae e'n annog y staff presennol - wrth iddynt



gymryd saib o'u gwaith ar y fainc, i fyfyrion ar lwyddiant y Sefydliad dros y ganrif ddiwethaf. Mae e' hefyd yn eu herio i barhau ag ymdrechion yr

arloeswyr cynnar, i ddarparu bwyd maethlon, rhesymol a chynladwy i genedlaethau'r dyfodol.

Mae gwefan IBERS yn datgan *“Er mwyn ein galluogi i ymgysylltu â'r cyhoedd mae Adeilad IBERS ar Gampws Gogerddan yn darparu cyntedd cymunedol a gofod arddangos, man cymdeithasol yn ogystal ag ardal awyr agored yng ngardd y Sgwâr Academiaidd”*.

Felly i'r rheini ohonoch sy'n teithio'n aml rhwng y de a'r gogledd, beth am alw yng Ngogerddan i yfed o'r fflasg ar fainc Des, ac ymfalchio mewn sefydliad Cymreig sy'n parhau i wneud marc ar draws y byd!

GŴYL MAWL MEDI 	
Dydd Sul 29 Medi 2019 – Y Priordy	
Yn y bore am 10 Hwyl Mawl Medi <i>gyda'r</i> Plant a'r Bobl Ifainc Arweinydd Rhys Griffiths <i>a</i> Band y Priordy	Yn yr hwyr am 5 Cymanfa Ganu Arweinydd Rhys Griffiths Eitem <i>gan</i> Gôr Meibion Caerfyrddin
	
YMARFERION YR OEDOLION	
Nos Sul 15 Medi 2019 am 7 Y Priordy	Nos Sul 22 Medi 2019 am 7 Y Priordy

Steffan O’Leary....

TYMOR ARBENNIG GYDA’R SÊR!

GYDA’R tymor pêl-droed bellach ar ben mae’n hyfryd cael edrych ’nôl ar lwyddiant Sêr Caerfyrddin a’r profiadau rydw i a fy mrawd Gwern wedi’u cael.

Fel aelod o dîm Dan 14 y Sêr cawsom dymor llwyddianus iawn gan sgorio 146 o goliau mewn 29 gêm - mae hynny’n golygu ein bod wedi sgorio ar gyfartaledd 5 gôl y gêm. Fe ddaethom yn ail agos iawn yng Nghynghrair Sir Gaerfyrddin gan golli tair gêm yn unig trwy gydol y tymor ac roedd y ras i frig y Gynghrair yn un cyffrous iawn hyd y diwedd.

Dyw’r tymor pêl-droed byth yn gorffen a dweud y gwir gan fod gwyliau a thwrnameintiau pêl-droed yn cael eu cynnal dros yr haf. Rydym wedi cystadlu yng ngwyliau pêl-droed Aberaeron, Llanybydder a gŵyl fawr Sêr Caerfyrddin ar Faes y Sioe yn ddiweddar.

Ond yr uchafbwynt i mi ac i fois y tîm oedd cael teithio i Crystal Palace i gystadlu mewn Twrnament yn Stadiwm Parc Selhurst. Roedden ni’n



cael chwarae yn erbyn tîmau ar draws Prydain. Roedd yn dipyn o brofiad cael chwarae ar gae Crystal Palace yn ogystal â chael ymweld ag ystafelloedd newid y tîm a chael sgorio gôl ar yr un cae â chwaraewyr Prif Gynghrair Lloegr. Cawsom bedair gêm llwyddianus gan ennill ein grŵp. Ymlaen wedyn i'r rownd gynderfynol

a gêm gyfartal oedd yn golygu ciciau o'r smotyn i benderfynu pwy fyddai'n cyrraedd y rownd derfynol. Roeddem yn ffodus iawn o gael golgeidwad arbennig sef Ifan Knott ac fe wnaeth ddwy safiad wych i



sicrhau ein bod yn ennill. Yn y rownd derfynol roedd gêm galed o'n Blaenau yn erbyn Southend Manor ac er i ni i gyd roi o'n gorau yn anffodus fe gollon ni'r gêm. Fel capten y tîm roeddwn i'n browd iawn o berfformiad y bois ac yn hynod o hapus ein bod wedi dod yn ail mewn twrnament mor gystadleuol. Roedd yn ddiwedd glo da i dymor rhagorol. Yn dilyn hyn cefais y newyddion fy mod wedi fy newis i



chwarae gyda thîm dan 16 Academi Tref Caerfyrddin er fy mod ond yn 14 oed. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at yr her.

Tra 'mod i yn Crystal Palace roedd Gwern, fy mrawd, y pen arall i Lundain yn Chelsea ac yn cystadlu mewn twrnament yn Stamford Bridge gyda thîm dan 9 Academi Tref Caerfyrddin. Roedd yn brofiad anhygoel i Gwern gael chwarae ar gae un o brif dîmau Lloegr ac ymweld â'r ystafelloedd newid a gweddill y stadiwm. Fe chwaraeon nhw chwe gêm ac er nad oedden nhw'n



llwyddianus yn cyrraedd y rowndiau terfynol roedd y profiad o gael chwarae fel tîm ar gyfleusterau mor wych yn un bythgofiadwy. Cafodd Gwern brofiad arbennig arall yn yr un wythnos drwy ennill tlws chwaraewr gorau'r flwyddyn i'w dîm lleol Sêr Caerfyrddin.

FELLY, tymor llwyddianus iawn i fi ac i Gwern (ac un prysur iawn i Mam a Dad!!) ac er bod toriad o rai wythnosau cyn dechrau'r tymor newydd rwy'n barod yn edrych ymlaen at gael gwisgo'r esgidiau pêl-droed unwaith eto.

AMRYWIAETHOL!



*Gweithgarwch
Cadwyn Diolch
yn yr Ysgol Sul*

*Agor y Llyfr
yn Ysgol y
Dderwen*



*Y Drws Agored
yn y Festrí*

CWIS GORFFENNAF AWST



Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'G'

Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1	G									
2	G									
3	G									
4	G									
5	G									

Cliwiau

1	Y cawr hwnnw o Gath a heriodd Israel fore a hwyr am 40 niwrnod yn Effes Dammim (I Samuel 14:4)
2	Cyffelybir einioes dyn iddo (Salm 103:15)
3	Y llen y cuddiai gwragedd y dwyrain neu hwynebâu â hi ym mhresenoldeb gwŷr (Genesis 38:19)
4	Enw'r angel a ddanfonwyd at Daniel i ddehongli iddo weledigaeth yr hwrdd a'r bwch, ac i fynegi iddo derfyn y deng wythnos a thrigain (Daniel 8:16)
5	Ar hwn y cresid un math ar y bwyd-offrwm (Lefiticus 7:9)

*Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf*

ATEBION CWIS MEHEFIN

1. Malltod 2 Mair 3 Manasse 4 Morgrugyn 5 Myrtwydd

GWASANAETH DINESIG

AR Fore Sul 9 Mehefin ymunodd y Priordy â chyfeillion Heol Awst ar gyfer Gwasanaeth Dinesig ym mhresenoldeb y Maer, Y Cyngorydd Jeff Thomas ac aelodau Cyngor y Dref. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Beti-Wyn James, ein Gweinidog, a Chaplan y Maer.



Wedi'r *Intrada* estynnwyd gair o groeso i bawb gan y Caplan cyn i ni gael y cyhoeddiadau a chynnal y casgliad a

chanu'r emyn cyntaf *Rhagluniaeth fawr y nef*. Cyflwynodd y Maer y darlleniad, sef adnodau o'r ail bennod yn Llyfr yr Actau yn sôn am yr Ysbryd Glân yn dod ar y Pentecost.

Seiliodd Beti-Wyn ei sgwrs â'r plant ar arfbais Cyngor Tref Caerfyrddin, yn enwedig y cwrwgl sydd ar ei frig. Yn union fel mae llif yr afon Tywi'n cario'r cwrwgl, felly hefyd mae Duw yn ein tywys ni ar lif bywyd.



Cafwyd datganiad ar yr organ gan Berwyn Jenkins, aelod yn Heol Awst am flynyddoedd lawer cyn iddo yntau i a'i wraig symud i Ystrad Owen ym Mro Morgannwg. Bu wedyn eitemau gan Gôr Meibion Caerfyrddin, gyda'r Maer yn eu plith fel un o'r aelodau, dan arweiniad Wyn Maskell. Yna, fe'n harweiniwyd mewn gweddi gan y Caplan cyn cydganu'r emyn *Ar yrfa bywyd yn ein byd*.



Roedd y darlleniad eisoes wedi'n hatgoffa fod y Sul hwn yn un arbennig iawn am fwy nag un rheswm. Nid yn unig roedden ni'n

dathlu Sul y Maer ond hefyd Sul y Pentecost a'r Ysbryd Glân yn disgyn ar yr Apostolion a dechrau'r Eglwys Gristnogol newydd - yr Eglwys fawr fyd-eang y mae Iesu'n ben arni. A chraidd myfyrdod Beti-Wyn oedd i ni gofio fod pethau o bwys mawr wedi digwydd ar y Pentecost – pethau chwyldroadol a newidiodd gwrs y byd. Erfyniodd ar i ninnau fod yn ddisgwyllgar am yr Ysbryd Glân heddiw, yn gynghorwyr ac fel arall, a phrofi'n helaeth o'i nerth i'n galluogi i wneud ein rhan dros Grist.



DAETH y gwasanaeth graenus a phwrpasol hwn a'r dathlu deublyg i ben gydarr emyn *Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw* ar y dôn *Pantfyfedwen*.

Llun: Jeff ac Eirlys Thomas, Maer a Maeres Tref Caerfyrddin 2019-20

SUL Y TADAU

MAE pob Sul yn Sul y Tadau, meddai un cyflwyddydd teledu adnabyddus ar S4C yn ddiweddar! Wel, boed hynny'n wir ai peidio, roedd Dydd Sul, 16 Mehefin 2019 yn Sul y Tadau go spesial yn y Priordy'r tro hwn!!



Roedd hi'n werth cyrraedd y capel yn gynnar pe bai ond i glywed Band y Priordy a'i sain hudol yn gosod y naws priodol ar gyfer oedfa deulu ar y diwrnod arbennig hwn. A diolch i'r band am gyfeilio drwy'r oedfa ac i Fand Taro'r Plant am ymuno â nhw'n llawn asbri a bywyd ar gyfer un o'r emynau.

Yn dilyn y weddi agoriadol gan ein Gweinidog cafwyd y cyhoeddiadau a'r casgliad a diolch i Greta, Luned, Osian, Caleb a Gwenan am eu help gyda'r casglu.

Doedd hi ddim yn Sul i'r tadau segura o bell ffordd ac Iwan Evans (darlleniad), Dewi Snelson (gweddi) a Gruff Ifan (emyn) oedd yn gofalu am y rhannau arweiniol.

Wedi hynny daeth Rhodri Elias ymlaen gyda chrys rygbi fel sy'n cael ei wisgo gan chwaraewyr a chefnogwyr fel ei gilydd a hwnnw'n symbol o gefnogaeth. Yna, daeth Huw Jones ymlaen gyda phêl-droed – er mwyn cadw'r ddisgyl yn wastad! Darnau o ledr wedi'u gweu i'w gilydd yw'r bêl ac mae'n symbol o'r teulu sydd wedi'i fowldio yn yr un modd gyda'r tad yn aelod pwysig ohono. Tro Tim Hayes oedd hi nesaf i ddod ymlaen fel dyfarnwr gyda'i chwiban a'i gardiau melyn a choch yn symbol o'r tad sy'n gofalu amdanom ac yn ein caru hyd yn oed pan ydym yn gwneud pethau drwg! Gosodwyd y gwrthrychau hyn i gyd ar y Bwrdd Cymun a'r cyfan yn ein hatgoffa o'r hyn y mae bod yn dad yn ei olygu a hefyd nodweddiad y Tad Nefol.



Daeth Beti-Wyn ag enghreifftiau o anrhegion mae tadau fel arfer yn eu derbyn ar y diwrnod hwn. Bu'r plant wrthi'n ei helpu i'w dadlapio - tei, siocled, cap sanau a photel (Rev James, efallai!!). Ond esboniodd mai go brin y byddai anrhegion fel hyn yn gweddu i Dduw ein Tad ar Sul y Tadau nac ar unrhyw achlysur arall o ran hynny. Dangosodd ar y sgriniau beth yw'r rhoddion sydd wrth fodd Duw – ein gweddiâu i'w cyflwyno iddo, ein dwylo i gyflawni'i waith, ein clustiau i wrando arno, ein traed i gyd-gerdded

ag e yn y byd, ein calon i'n helpu i hoffi a charu eraill a'n gwên i fod yn hapus yn y byd. A dyma'r anrhegion a fyddai'n addas i ni eu rhoi i Dduw bob amser.



Wrth i ni fynd o'r capel, roedd pleser arall yn ein haros gan i bob tad dderbyn un o siocledi Heroes! Blasus iawn, rhaid dweud!

Ond aethon ni ddim adre ar ein hunion y Sul hwn ychwaith. I lawr â ni i gyd i'r Festri i fwynhau paned gyda'n cyfeillion o'r Mosg yn Heol y Prior. Ein baint oedd cael sgwrsio a chymdeithasu â nhw. Ar ben hynny da oedd cael cacennau blasus gyda'n paned – y cyfan o waith Elin Wyn. Roedd yr elw o werthu'r cacennau'n mynd at Daith Gerdded y Tri Chopa, sef Ben Nevis, Scaffel Pike a'r Wyddfa, i'w chyflawni mewn 30 awr y mae Elin a'i ffrindiau coleg yn mynd arni i helpu elusen MIND. Mynegwyd diolch ar ran y Mosg gan y Dr Baba M Gana a amlinellodd yr hyn sy'n gyffredin rhwng ffydd y Mwslim a'r Cristion a phwysigrwyd dysgu mwy am gredoau'n gilydd er mwyn creu gwell harmoni yn y byd.



DIOLCH i'n Gweinidog unwaith eto am baratoi mor drwyadl ar gyfer y bore cyfoethog hwn.



UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG BUGEILIO CEFN GWLAD



Amaeth yw asgwrn cefn ein cymunedau gwledig – yn cynnal ein capeli, yr iaith Gymraeg a'n diwylliant. Ond mae ffermio yn gallu bod yn waith unig ac fe all problemau ariannol a phryderon eraill o sawl math effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol.

Oes gennych chi broblem neu bryeder?

Codwch y Ffôn

0808 281 9490

Dyma linell gymorth elusen yr RABI sydd yn helpu tua 2,000 o amaethwyr a'u teuluoedd i ddelio ag ystod eang o problemau bob blwyddyn. Cewch sgwrs hollol gyfrinachol gyda staff fydd yn medru eich cyfeirio at gymorth arbenigol.

SUL Y TADAU YN Y PRIORDY



Ifanc@Priordy

Da iawn bawb yn y
Mabolgampau!




Dyddiadiadur yr	Ysgol Sul a	PIP
Gorffennaf 7	Parti!	Parti!
Gorffennaf 14	Bwrlwm Bro	Sul Sbesial
Gorffennaf 21 hyd Medi 1	Dim Ysgol Sul	Dim PIP

Diolch

Daeth diwedd blwyddyn arall yn yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch am eich ffyddlondeb ac i'r tîm o athrawon am baratoi ar eich cyfer. Mwynhewch yr haf. Fe'ch gwelwn ym mis Medi, ond mae gwasanaeth yn y Priordy dros yr haf ac mae croeso i chi ymuno.



I'ch dyddiadur! Gorffennaf 14 yn Yr Egin



Hwyl am
y tro.

Tan y tro
nesaf,
Beti-Wyn



RHODRI DARCY
yn arwain sesiwn
i'r bobol ifanc:
FFILMIO a GOLYGU
yn y caffi seiber
(dewch â'ch cluniadur)

PERERINDOD YR OFALAETH 2019



PERERINDOD YR OFALAETH *Dydd Sul 23 Mehefin 2019*

BANT â ni ar y bws gyda'r tywydd o'n plaid a losin i'w cnoi (diolch i garedigrwydd Lyn ac Ann Jones) a chyrraedd cyn hir yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Nhre-fach Felindre – pentref diwylliadol Sir Gâr 2019. Mwynhau paned yn yr Amgueddfa a chrwydro o gwmpas y lle diddorol hwn. Buan iawn y gwelsom gyswllt â'r Priorddy wrth syllu ar y murlun o waith cominsiwn Aneurin a Meirion Jones (sy'n cynnwys llofnod y ddau) i ddathlu hanes pentref Dre-fach gan fod Peter Hughes Griffiths, fel un o'r brodorion, yn rhan ohono!



Cwis wedyn i finiogi'n ffeithiau am Geredigion wrth i ni deithio rhwng Dre-fach a Chenarth, man ein harhosiad cyntaf yn sir y Cardis. A go brin fod gwell

lle i ystwytho'r coesau a chael picnic a mwynhau hufen iâ na'r man hardd hwn.



Ymlaen wedyn i Gapel Brynrhiwgaled (ger Synod Inn), Pentre'r-bryn, ar gyfer 'pinacl y daith', sef oedfa'r prynhawn. gyda'r Parchedig John Gwilym Jones yn

pregethu. Diolch i'r Parchedig Beti-Wyn am y rhannau arweiniol, Catrin Evans wrth yr organ ac Euros Lloyd, yr



Ysgrifennydd, am y croeso. Aeth y casgliad at waith Cymorth Cristnogol. Yn ei ddehongliad cyfoes craff a meddylgar o ddameg y Samariad Trugarog, amlygodd y gennad yn glir mai pwy sy'n gymydog da ac yn gwneud daioni yn y byd yw prif gonsŷrn Iesu heddiw fel ddoe.

Sylwodd llygaid barcud Malcolm ac Eurwen Jones fod pileri'r capel wedi'u saernïo gan '*T Jones & Sons, Priory Foundry, Carmarthen*' gyda'r geiriau hyn wedi'u harysgrifennu ar un ohonynt. Enghraifft arall yn nes atom o waith y ffowndri a ffurfiwyd ym 1860 yw rheiliau a chlwydi Eglwys Sant Ioan yn ein trefl.

Roedd cyfeillion y capel wedi paratoi te p'nawn hyfryd ar ein cyfer a diolchwyd yn garedig iddynt ar ein rhan gan Sulwyn Thomas, Llywydd Swyddogion yr Ofalaeth. A dymunwn ninnau'n dda i aelodau'r capel ddiwedd Medi pan fyddant yn dathlu 125 mlynedd ers ailadeiladu'r capel ym 1894.



Yn ôl ar y bws â ni wedyn i gyfeiriad Aberaeron gan fynd drwy Geinewydd ar y ffordd, Erbyn hyn roedd yr haul wedi'n gadael a'r glaw wedi dod – ond dim digon i'n digalonni a difetha'n hwyl. Mae'r hanesydd John Davies yn cyfeirio at Aberaeron fel '*tref glan-y-môr hyfrytaf Cymru – yn enwedig nawr gan fod ei thrigolion wedi darganfod paent.*' A hyfryd yn wir oedd troedio'r palmentydd i gyfeiriad y môr a dotio ar y tai cain a lliwgar o'n cwmpas.

Cyrraedd Tafarn Frostrasol ar gyfer cinio dydd Sul – twrci i rai a chig eidion i eraill, gydag ambell un lwcus wedi profi'r ddau yn ystod y dydd! Diolch i Catrin Tomos, ymgeisydd am y weinidogaeth sy'n treulio amser yn ein Gofalaeth yn cysgodi Beti-Wyn, am ddweud y gras bwyd. Ein barn unfrydol oedd bod y pryd yn un hynod o flasus. Does ryfedd felly i ni gael



ein hysbrydoli i gychwyn ychydig o ganu cynulleidfaol ar ei ddiwedd!

Diolch yn arbennig i Beti-Wyn am drefnu'r daith gyfan gan gynnwys paratoi'r daflen froliant a argraffwyd gan Gwynfor Davies. Cawsom ein difyrru ganddi wrthi fynd o le i le, gyda hanesion lleoedd a phobl fel

David Johns (1798-1843) o Lanina a'i gyswilt â chapel Brynrhiwgaled – un a fu'n genhadwr ym Madagascar am yn agos i 17 mlynedd, a'r Parchedig Albert Thomas Jones-Gwynne adeiladydd tref Aberaeron ym 1805.



Paratowyd y cwis gan Alun Charles. Bu Mair Jones (Cana) a Joanne Richards (Bancyfelin) yn cynorthwyo gyda'r trefniadau yn eu capeli ac roedd y gwaith cyllidol yn nwylo medrus David Lloyd (Y Priordy).

Braf oedd cael cwmni cyfeillion o rai o gapeli ac eglwysi'r cylch ar y daith hon a mynegodd un ohonynt, Y Parchedig Tom Defis, air o ddiolch ar ran pob un ohonom mewn ffordd ddeheuig.

CYRHAEDDON ni adref yn llawen a bodlon a hefyd yn ddiogel - diolch i'r gyrrwr gofalus Elfed Lewis o Gwmni Ffoshelig.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 17 Gorffennaf 2019 am 7 yn y Ffestri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

**Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?**

Trowch at: cyfundeb.com



A WYDDOCH CHI?

FAINT O EGLWYSI, AELODAU, PLANT A PHOBL IFAINC SY GENNYM?

CRYNODEB O YSTADEGAU YR EGLWYSI FESUL CYFUNDEB
YN 2018

RHIF	CYFUNDEB	EGLWYSI	AELODAU	PLANT A PHOBL IFAINC
1	Llyn ac Eifionydd	22	780	125
2	Gogledd Arfon	22	1048	182
3	Dwyrain Dinbych a Fflint	8	165	20
4	Gorllewin Dinbych a Fflint	8	206	37
5	Maldwyn	21	528	56
6	Meirion	27	1027	135
7	Môn	25	634	46
8	Ceredigion	52	3088	192
9	Gorllewin Caerfyrddin	36	2467	349
10	Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog	46	3154	329
11	Gogledd Morgannwg a Mynwy	10	90	16
12	Dwyrain Morgannwg	20	1396	383
13	Gorllewin Morgannwg	43	1945	123
14	Penfro	30	1305	74
15	Llundain	5	135	2
2018	CYFANSWM	375	17,978	2,069

Ffynhonnell

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Tanysgriafiadau a Chyfrifon 2018 Tŷ John Penri, Abertawe

MABOLGAMPAU MIC



Taith y Tri Chopa

NID yw cerdded mynyddoedd yn rhywbeth anghyfarwydd i mi. Fel teulu, rydym yn manteisio ar ambell brynhawn rhydd i fynd i gerdded. Does dim byd gwell na threulio prynhawn yn yr awyr agored wedi wythnos o waith.



Roeddwn yn llawn cyffro felly pan glywais fod taith gerdded tri chopa uchaf Prydain yn cael ei threfnu gan Brifysgol Birmingham lle rwy'n fyfyrwraig. Roedd hwn yn gyfle rhy dda i'w gollu, a dyma fynd i'r cyfarfod cychwynnol ar fy mhen fy hun, ond buan y des i adnabod 49 o fyfyrwyr eraill a oedd yn rhannu'r un diddoreb ac awydd â mi.

Ar ôl cyfres o gyfarfodydd a chynllunio manwl, penodwyd 18 a 19 Mehefin 2019 fel y diwrnodau y byddem yn cerdded y trip chopa, gan gychwyn gyda Ben Nevis yn Yr Alban, yna Scafell Pike yn Lloegr a'r Wyddfa - mewn 30 awr!

Cychwynnodd llond bws ohonom gyda'n hoffer i gyd ar y daith i Glasgow fore Llun, 17 Mehefin a chyrraedd mewn da bryd i gael noson dda o gwsg - yr olaf am ddeuddydd!



ymhellach na'n llaw!

Roedd taith bws 4 awr gennym ar fore y 18fed o Glasgow i Fort William ac yno yn cuddio yn y niwl, roedd y cawr, Ben Nevis! Cawsom ein rhannu mewn i grŵpiau yn ôl lefel ein ffitrwydd a rhoddwyd amser arbennig i bob grŵp fel nôd i'w chyrraedd er mwyn medu mynd ymlaen i'r copa nesaf. Ein nôd oedd 6 awr i esgyn a disgyn o'r mynydd. Roedd yr esgyniad yn hir iawn a'r tywydd ar y copa yn rhewllyd iawn. Dyma'r copa cyntaf, a phrin y medrem weld

Aeth y bws â ni ymlaen o Fort William i'r de ac i'r Peak District.

Roedd y tywydd wedi gwella erbyn hyn a'r haul ar fachlud.



Cychwynwyd cerdded am 2 y bore a chyrraedd y copa mewn dwy awr. Er nad hwn oedd y mynydd uchaf o'r tri, eto hwn, heb os, oedd y mynydd anoddaf i'w ddringo gan fod y llwybr yn serth iawn ac yn garregog tu hwnt. Dwy awr arall i lawr a 'nôl i esmwythder y bws.

Heb fawr o gwsg rhwng mynyddoedd, cawsom saib i ginio cyn cychwyn i fyny'r Wyddfa. Roedd angen tipyn o gefnogaeth arnom wrth wynebu'r mynydd olaf, a rhai

eisioes wedi hepgor Scafell Pike, ond roeddwn i yn benderfynol, er gwaetha'r boen, i oresgyn yr Wyddfa a chwblhau'r gamp! Cefais syrpreis bach neis pan drodd fy ffrind, Ffion o Lanfairtalhaearn i fyny wrth droed yr Wyddfa i gyd-gerdded y cymal olaf gyda mi.

Am unwaith, gwelsom gopa'r Wyddfa yn yr haul a'r golygfeydd i bob cyfeiriad yn odidog. Prin y cawsom gyfle i werthfawrogi'r olygfa gan fod yn rhaid i ni ddisgyn o'r mynydd o fewn yr amser gofynnol er mwyn cwblhau'r gamp mewn 30 awr - a chael swper blasus ar ei diwedd!



Penderfynodd y Brifysgol y byddai'r daith yn gyfle i godi arian i MIND - elusen bwysig iawn sy'n darparu gofal iechyd meddwl i unigolion drwy Gymru a Lloegr. Trwy garedigrwydd teulu a ffrindiau llwyddais i godi £635 i'r elusen, £170 ohono o ganlyniad i werthiant y cacennau bach yn y festri wedi'r oedfa ar fore Sul y Tadau. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am fy nghefnogi, ac am bob rhodd ariannol a dderbyniais.



Gyda 50 ohonom ni fyfyrwyr Prifysgol Birmingham wedi cwblhau her y Tri Chopa, llwyddwyd i godi rhyngom dros £25,000 i elusen MIND.


ROEDD fy mhengliniau mewn poen a'm cyhyrhau'n gwegian, ond y gamp wedi ei chyflawni. Bydd y profiad yn aros gyda mi am byth.

Papur Priordy'n cofio....

ROBERT GRIFFITH (RG) BERRY ***Gweinidog Annibynnol, Awdur a*** ***Dramodydd*** ***(1869-1945)***

FE'I GANED yn Llanrwst ym mro
Eisteddfod Dyffryn Conwy 2019 ar 20 Mai
1869, gant a hanner o flynyddoedd yn ôl.

Cafodd ei addysg gynnar yn ysgolion
Brytanaidd, Cenedlaethol a Gramadeg
Llanrwst. Daeth yn aelod o Gapel
Annibynnol y Tabernacl yn nhref Llanrwst
dan weinidogaeth y Parchedig Thomas
Roberts (Scorpion) ym 1881. Ar ôl gorffen
ysgol, enillodd ysgoloriaeth i Brifysgol
Bangor, lle cwblhaodd hanner cyntaf ei
radd BA cyn mynd ymlaen i Goleg Bala-Bangor ym 1892 i baratoi ar



gyfer y Weinidogaeth.



Derbyniodd alwad i Fethlehem,
Gwaelod-y-garth, pentref ym
mhlwyf Pen-tyrch, ger Caerdydd
ym 1896 a'i ordeinio yno
ddechrau'r flwyddyn ganlynol.
Treuliodd weddiill ei oes ym
Methlehem. Priododd â Hanna
Watkins, Tŷ Newydd, Gwaelod-
y-garth ym 1903 a chawsant un

ferch, Margaret. Bu farw ar 16 Ionawr 1945 a'i gladdu yn mynwent
Eglwys Pent-yrch.

Daeth ei ddawn lenyddol arbennig i'r amlwg yn nyddiau coleg.
Saesneg oedd ei iaith lenyddol gyntaf a dechreuodd gyfrannu ysgrifau
yn *Magazine*, cylchgrawn y Coleg, y bu'n olygydd cyntaf arno. Doedd
ei ddiddordebau ddim yn gyfyngedig i'r byd llenyddol ychwaith. Bu'n
amlwg yn y Gymdeithas Ddadlau gan ddod yn llywydd arni ac roedd yn
dipyn o bêl-droediwr a chricedwr. Bu diddordeb mawr ganddo yn y
chwaraeon hyn ar hyd ei oes, yn enwedig criced,

Parhaodd i lenyddu ar ôl symud i Waelod-y-garth gan gyfrannu

ysgrifau a storïau i'r cylchgrawn misol *The Welsh Outlook* a sefydlwyd ym 1914. Yn ei ardal newydd hefyd y dechreuodd ysgrifennu yn Gymraeg.

Ar ôl byw yng Ngwaelod-y-garth am gryn dipyn o flynyddoedd




dechreuodd gyfansoddi dramâu Cymraeg, Esbonia Emyr Edwards yn Barn fel y daeth i'w gydnabod yn un o arloeswyr y ddrama Gymraeg. Roedd yn ysgrifennu mewn cyfnod o newid yn hanes y ddrama. Bu cyfyngu, ar ei datblygiad cyn hynny, yn rhannol oherwydd fod Anghydfurfwyr mor wrthwynebus iddi. Daeth newid rhwng blynyddoedd rhyfel wrth i Berry ac eraill dorri tir newydd o ran, techneg,

ansawdd a thestun y ddrama. Byddai Berry'n ysgrifennu i bwrpas, sef ar gyfer cwmni drama'r capel. Mae'n debyg mai festri'r capel a'i symbylodd i ysgrifennu dramâu yn y lle cyntaf a daeth i ddeall ac adnabod anghenion cwmnïau amatur o ran actorion a chynhyrchwyr.. Roedd hefyd yn ailgreu bywyd go iawn yn ei waith a chyfrannodd at dwf y ddrama naturiolaidd yn Gymraeg. Er nad oedd ei gynnyrch yn helaeth iawn daeth yn adnabyddus ledled Cymru fel dramodydd. Ymhlith ei ddramâu mae *Ar y Groesffordd*, *Noson o Farrug*, *Asgre Lân*, *Y Ddraenen Wen*. *Dwywaith yn Blentyn* ac *Yr Hen Anian*. Bu'n cystadlu gyda chwmni'r capel a dod yn feirniad mewn eisteddfodau. Ond ar ôl 1929, ac eithrio cyhoeddi ambell i ddramodig i blant yn *Y Tyst*, trodd ei olygon at y stori fer a'r ysgrif a beirniadaeth lenyddol yn Gymraeg.

Ym 1930, cyhoeddodd gyfrol o naw o straeon byrion o'r enw *Y Llawr Dyrnu* - ei unig gyfrol o storïau. Cyfrannodd i'r cylchgronau llenyddol cydnabyddedig fel *Y Llenor* hyd at 1941 a pharhaodd i gyfrannu i'r *Tyst* wedi hynny dan olygyddiaeth Dyfnallt, ei hen gyfaill. Wrth grisialu'i waith llenyddu yn Gymraeg mae Huw Ethal yn ei gyfrol *R G Berry* yn dweud mai colled eithriadol oedd i Berry beidio ag ymroi i lenyddu mwy 'crefyddol' a mwy 'difrifol' ar ddull homilïau Emrys ap Iwan neu ysgrifau yn null Morgan Llwyd. Roedd ganddo'r gallu a'r athrylith i wneud hynny.

Am ei gyfraniad i lenyddiaeth, derbyniodd radd MA Prifysgol Cymru ('er anrhydedd') ym 1925




Ond gweinidog a phregethwr oedd R G Berry yn anad un peth arall. Gweinidog un eglwys hefyd ac un uchel ei barch ymhlith yr aelodau. Roedd pregethu'n hollbwysig iddo a'r Efengyl Gymdeithasol yn agos at ei galon. Cafodd ei ethol yn Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ym 1943. 'Arglwyddiaeth Crist' oedd testun ei anerchiad yn Undeb Castellnewydd Emlyn



Meddai un o'i aelodau ym Methlehem, yr ysgolhaig Cymraeg disglair, Yr Athro Gruffydd John Williams adeg ei farw:

Y mae Cymru wedi colli un o'i llenorion amlycaf, ac un o'i phregethwyr mawr. Y mae colli Mr Berry yn golled i'r genedl, ond nyni yma a wêl fwyaf ei eisiau. Ni bydd Gwaelod-y-garth a'r cyffiniau yr un fath i neb ohonom wedi hyn.

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD**



**MIC
MABOLGAMPAU DAN DO**



**10 Gorffennaf 2019
Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir)**

**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**



**BLE GWELOCH CHI HYNNY??
WEL, YN Y TYST!
50c y rhifyn!
Cysyllter â Sulwyn Thomas**



David Lewis...

FREIBURG in BREISGAU
yn llwybrau
T H Parry- Williams



DYMA oedd teitl taith Dosbarth Llenyddol Abertawe eleni yng ngofal Heini Gruffudd. Yn Freiburg y sefydlwyd un o'r prifysgolion mwyaf hynafol yn yr Almaen ac yma y daeth T H Parry-Williams yn fyfyrwr ym mis Tachwedd 1911 i astudio ar gyfer doethuriaeth ar berthynas y Llydaweg a'r Gymraeg. Roedd eisoes wedi dysgu Almaeneg yn Rhydychen. Mae'i hanes yn Freiburg wedi'i gofnodi gan Angharad Price yn ei llyfr ardderchog *Ffarwel i*



Freiburg (Gomer 2013) ac yma ceir yr holl fanylion am ei fywyd fel myfyriwr, lle bu'n lletya, ei ffrindiau a'i ymateb yn gyffredinol i fywyd y Brifysgol. Roedd myfyrwr yn cael eu hannog i fynychu darlithoedd y tu allan i'w pwnc. Roedd y gwyddorau seicoleg yn feysydd o bwys yno a byddai Martin Heidegger yn mynychu darlithoedd yr athronydd Richert yr un pryd â TH Parry-Williams. Roedd yn gyfnod o dwf diwydiannol a datblygiadau diwylliannol, cyfnod *art nouveau* a chychwyn y sinema, twf seicoleg a moderniaeth. Ei gyfarwyddwr ymchwil oedd yr Athro Rudolf Thurneysen a hanai o Basel. Roedd yn arbenigo yn yr ieithoedd

Romawns, yna ieithge Geltaidd a hen Wyddeleg. Cafodd gyfle i deithio yn yr ardaloedd cyfagos fel Lwern yn y Swistir ac yma y cyfansoddodd ei awdl i'r mynydd:

Mewn caban cudd dan gysgod gwern
Mi welais lesu pren ar groes –
A rhwyfwr haf ar Lyn Lwsérn
Yn canu tiwn yn swm gitâr.

Roedd yn arferiad gan fyfyrwr yr adeg honno i dorri'u henwau ar furiau a drysau a dyna a wnaeth T H Parry-Williams. Ger Llyn Geneva, meddai, '*un o'r pethau mwyaf beiddgar a wneuthum erioed oedd torri f'enw dan enw Byron ar y mur yng Nghastell Chillon ar lan Llyn Geneva*'. Hoffai fywyd y caffis a'i hoff gaffi oedd Café Schanz, caffi Fiennaidd ar gornel prif stryd Freiburg, Kaiserstraße



Freiburg – y Ddinas

Sefydlwyd y dref yn 1120. Dinistriwyd llawer ohoni yn yr ail ryfel byd ond bod rhai

o'r hen adeiladau'n dal i aros neu wedi'u hailgodi. Bu cymuned Iddewig yno ers yr Oesoedd Canol ond bu cryn erlid ar yr Iddewon ar hyd y canrifoedd. Llosgwyd yr Hen Synagog gan y Natsiaid ym 1938. Danfonwyd Iddewon i wersylloedd lladd ym 1940 a llawer yn Auschwitz. Mae'n debyg fod tua 750 o aelodau gan y gymuned Iddewig yn Freiburg erbyn hyn. Mae tua 30,000 o fyfyrwyr, yn rhan o boblogaeth o 230,000, yn byw yn Freiburg heddiw. Mae'n un o'r trefi mwyaf gwyrdd, gydag ymdrech i gael ynni o'r haul a'r gwynt. Cychwynnwyd cynllunio tai 'Passivhaus' ym 1995. Mae'r tai hyn yn defnyddio hyd at 80% yn llai o ynni na thai cyfredin. Mae'r dref mewn un o'r mannau mwyaf heulog yn yr Almaen. Ac mae digon o gaffis a mannau bwyta ardderchog yn y dref!

Mae Freiburg fel dinas yn agos iawn at ffin dwy wlad arall, sef Ffrainc a'r Swistir, ac wedi'i lleoli'n agos iawn at Afon Rhein. Roedd modd felly ymweld â dinasoedd eraill yn y ddwy wlad a theimlo'r naw Ewropeaidd a geir yn y rhan hon o'r Almaen. Mae'r maes awyr yn arwydd o hyn hefyd fel y dengys ei enw, sef Basel / Freiburg ac mae'n holl bwysig wedi glanio i ymadael i gyfeiriad Ffrainc yn hytrach na'r Swistir wrth gwrdd â'r bws i Freiburg. Llwyddodd dau o'r grŵp i anwybyddu'r neges hon a bu'n rhaid eu tywys yn ôl o'r Swistir!

A dyma ychydig am fannau eraill y cawsom gyfle i'w gweld ar ein taith:

Colmar ac Alsás

Mae Colmar yn Alsás - ar un adeg yn yr Almaen ond bellach yn Ffrainc. Tua 65,000 yw ei phoblogaeth. Mae'r dref yn orlawn o adeiladau o wahanol gyfnodau. Yn yr Uterlinden Museum ceir allor Isen heim sy'n fyd enwog ac yn darlunio dioddefaint Crist. Cafodd pensaer cerflun rhyddid Efrog newydd - *The Statute of Liberty* - ei eni yn Colmar. Mae'r amgueddfa hefyd yn cynnwys gwrthrychau o'r gymuned Iddewig.



Alsaseg yw'r ffurf o Almaeneg isel sy'n cael ei siarad yn Alsás. Bu agwedd Ffrainc at ieithoedd y wlad yn negyddol ac aeth ati'n fwrriadol i wanhau ieithoedd brodorol fel y Llydaweg ac Alsaseg. Mae tua 500,000 yn ei siarad ond mae'n dirywio erbyn hyn. Mae 43% o oedolion yn ei siarad ond llai o bobl ifanc. Diddorol oedd ystyried sefyllfa'r iaith yng Nghymru o gymharu â'r hyn a welir yn Alsás.

Straßburg / Strasbourg

Dyma brifddinas yr ardal ac mae dros 230,00 o bobl yn byw yma. Ar y Sul aethon

ni yno ac roedd yn ddiwrnod agored i Senedd Ewrop. Aeth nifer o'r grŵp yno a chawsant groeso cynnes. Yng nghanol y ddinas ceir y Grande Place sy'n safle Treftadaeth y Byd er 1988. Mae'r ddinas yn gymysgedd o'r Almaen a Ffrainc a'r ddwy wlad wedi ceisio'i meddiannu yn eu tro. Roedd gan Strasbourg ran amlwg yn y Diwygiad Protestanaidd a bu ganddi gysylltiad â diwinyddion amlwg, fel Albert Schweizer, un o Alsás, Kaiserberg ac Alsaseg oedd ei iaith gyntaf. Yn 1905, cyhoeddodd O M Edwards ei



lyfr *O'r Bala i Geneva* ac mae'n cyfeirio at ei ymweliad â'r ddinas wrth iddo deithio ar draws Ewrop. Sonia'n arbennig am yr Eglwys Gadeiriol - un o ogoniannau pensaernïol Ewrop - a'r Cloc hynod:

Dois i Strasburg bore heddiw, ac yr wyf wedi bod yn ei phrysur ysbïo trwy'r dydd. Y peth oeddwn wedi clywed mwyaf sôn amdano oedd y cloc, a rhyfeddod mawr ydyw. Taro'r tri chwarter awr yr oedd pan welais i ef

gyntaf. Daeth delw dyn canol oed ymlaen i daro'r gloch, yna ciliodd a chymerodd hen ŵr barfwyn ei le. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn fwy o ryfeddod fyth. Y mae'r clochdy yr uchaf yn Ewrop – yn bedwar cant ac wyth a thrigain o droedfeddi – yr oeddwn yn sefyll ar ei ben awr neu ddwy yn ôl, ymron penfeddw, a chefais olwg ardderchog ar yr haul yn machlyd mewn môr o dân dros fynyddoedd y Fasges. Yfory mae'r Pabyddion yn mynd i wneud helynt mawr, oherwydd dydd gŵyl Fihangel ydyw, a'r archangel hwnnw ydyw sant nawdd yr eglwys. Yr wyf am deithio oddi yma ar hyd y nos – noson oleu leuad braf – ac yn meddwl treulio y Sabbath yn ninas Basel; caf dreio addoli yno yn yr eglwys lle y gorwedd corff Erasmus.'



Schwarzwald

Mae'r Schwarzwald, neu'r Fforest Ddu, yn ardal dde-orllewinol yr Almaen tua 100 milltir o hyd a 30 milltir o led. Coedwigaeth yw'r prif ddiwydiant ac eithrio twristiaeth. Dyma'r lle i brynu clociau a chelf o bren. Mae'r ardal yn frith o bentrefi bach yn llawn swyn ac eglwysi addurnol. Roedd y daith i'r ardal hon yn gofiadwy a diddorol dros ben ac yn newydd i Margaret a minnau. Mae'n ddiddorol hefyd gan fod sawl gwlad yn ffinio â'i gilydd yn y dalaith hon sy'n gorwedd ar draws dyffryn eang afon Rhein.



Konstanz

Tref brifysgol ar lan y Bodensee gyda phoblogaeth o tua 85,00 yw hon. Mae'n ffinio â'r Swistir a'r afon Rhein yn llifo drwy'r llyn wrth ei hymyl. Y Münster, yr eglwys gadeiriol, yw'r adeilad mwyaf amlwg ac fe'i cysegrwyd yn 1098 OC. Yma mae'r tŷ lle roedd y merthyr Jan Hus yn byw. Mae bellach yn amgueddfa ac yn cynnwys hanes ei fywyd. Penderfynodd yr awdurdodau (Papaul Curia) ei fod e a'i gredo'n berygl i undod yr Eglwys ac fe'i dienyddwyd trwy losgi yn 1414. Fe ar lawer ystyr oedd y cyntaf o'r Diwygwyr Protestannaidd a dylanwadodd yn fawr ar Martin Luther yn ddiweddarach.



Basel

Roedd diwrnod olaf y daith yn rhydd ac roedd Margaret a minnau wedi trefnu cwrdd â hen ffrindiau o'r Almaen yn Freiburg. Eu syniad nhw oedd teithio ar y trê'n i Basel i weld arddangosfa o waith Picasso mewn oriel wedi'i gynllunio gan y pensaer enwog Renzo Piano. Welson ni mo lawer o'r ddinas am i'r amser yn yr oriel fynd heibio mor fuan ac angen i ni ddychwelyd i'r gwesty yn Freiburg i fwynhau'r cinio olaf a drefnwyd gan Heini.



WRTH agosáu at derfyn y daith roedd rhai ohonom fel Cymry'n ystyried tybed ai hon fyddai'r daith olaf ini fel aelodau o'r Undeb Ewropeaidd ac a fyddai angen pasbort, ac efallai fisa, y tro nesaf. Pwy a wŷr! Ond am y tro roedd pawb ohonom yn gytŷn fod gan wledydd Ewrop lawer i'w gynnig i ni fel y darganfyddodd T H Parry-Williams ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

YN GALLU CYNNIG HELP LLAW?

Bydd stondin gan y Priordy yn yr Ŵyl Canol Dre ym Mharc Myrddin ar Ddydd Sadwrn 13 Gorffennaf 2019.

Mae angen gwirfoddolwyr i ofalu am y stondin am gyfnodau byr rhwng 11 y bore a 6 yr hwyr. Os ydych yn gallu cynnig help llaw, cysylltwch â'n Gweinidog os gwelwch yn dda.



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

TUDALEN BLAEN

Y rheswm am yr englyn ar y tudalen blaen



Dewiswyd y tro hwn englyn o waith Edward Williams (1747-1826), neu lolo Morganwg fel y câi ei adnabod, i gydfynd â Gŵyl yr Orsedd a gynhelir yn ystod mis Gorffennaf yn ein tref. Ac mae'n diolch i Tudur Dylan Jones am ddewis yr englyn ar ein cyfer.

Undodwr oedd lolo Morganwg a gŵr o sawl talent a diddordeb. Fe oedd prif ysgogydd sefydlu Cymdeithas y Duwdodiaid yn Ne Cymru ym 1802. A'i waith e yw'r *Rheolau a Threfniadau* a gyhoeddwyd ym 1803. Bu'n ddolen gyswllt bwysig rhwng yr arweinwyr Undodaidd yn Llundain a'r arloeswyr Undodaidd Cymreig. Roedd yn gyfaill mawr i Thomas Evans (1764-1833) neu Tomos Glyn Cothi, bardd a Gweinidog Undodaidd a aned yng Ngwernogle, Sir Gâr.

Mae'n siŵr y cytunwch ei bod yn werth darllen yr englyn a myfyrio drosto.

Dymunwn yn dda i'r Wyl a diolch i bawb sydd wedi bod wrthi'n trefnu ar ei chyfer.





FFLAPJACS FANILA



DULL

Cynheswch y popty i 180oC / 350oF / Nwy 4.

Irwch dun Swiss roll yn ysgafn.

Rhowch y ceirch a'r siwgr mewn i bowlen a chymysgwch nhw'n dda. Toddwch y menyn mewn sosban.

Cymysgwch y surop euraidd i mewn i'r menyn toddedig tra bo'r menyn yn dal i fod yn gynnes, yna cymysgu'r rhinflas fanila i mewn i'r cymysgedd.

Cymysgwch y cynhwysion gwlyb a sych gyda'i gilydd yn drylwyr.

Gosodwch y cymysgedd yn y tun a'i wasgu'n wastad gyda fforc.

Rhowch y tun yng nghanol y popty am 15 munud neu hyd nes ei fod yn lliw euraidd.

Gadewch i oeri am ychydig funudau cyn marcio tua 12–16 sgwâr.

Yna, gadewch oeri'n gyfan gwbl yna defnyddiwch gyllell neu declyn tebyg i dynnu'r fflapjacs o'r tun.

Mae'r rhain yn flasus fel ag y maent, ond fe allwch ychwanegu cyrens, syltanau neu hadau neu fe allwch ychwanegu ddarnau bychain o siocled i'r cymysgedd hyd yn oed.

CYNHWYSION

255g/90z ceirch wedi'u rholio
128g/4.5oz siwgr brown medal neu
siwgr mân
113g/4oz menyn
2 lwy fwrdd o surop euraidd
3 llwy fwrdd o rinflas fanila (vanilla
essence)



LLYTHYR A DDERBYNIODD EIN TRYSORYDD, ADRIAN EVANS
gan

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG



Eglwys Annibynnol y Priorddy

Annwyl Aelodau

Apêl Madagascar

Diolch o galon i chi am y siec am £2,810.00 a dderbyniwyd gennych i gefnogi Apêl Madagascar. Rydym yn gwerthfawrogi eich rhodd yn fawr iawn ynghyd â'r holl weithgaredd sydd wedi bod ynghlwm wrth yr Apêl eleni ac rydym yn falch o allu dweud fod cyfanswm yr Apêl bellach wedi cyrraedd dros £110,000. Er bod yr Apêl wedi dod i ben yn swyddogol gyda chyfarfodydd yr Undeb yn gynharach y mis hwn, y bwriad yw cadw'r cyfrif ar agor tan ddiwedd y flwyddyn ac mae'n braf gallu dweud bod y cyfraniadau yn dal i gyrraedd er budd y pedwar prosiect sydd ar waith ym Madagascar,

Diolch ichi hefyd am yr adborth fod yr Apêl wedi bod yn gyfrwng creu gweithgarwch yn eich plith fel eglwys a diolch unwaith eto i chi am eich haelioni a'ch gweithgarwch elusennol er budd ein cyfeillion ym Madagascar.

Pob bendith

Yn gywir

Nerys Humphreys
Cynorthwy-ydd Gweinyddol

ADDOLI AR Y CYD MIS AWST 2019

Dydd Sul, 4 Awst
Heol Awst
ALUN LENNY

Dydd Sul, 11 Awst
Capel Penuel
Y PARCHEDIG ANDREW LENNY

Dydd Sul, 18 Awst
Y Tabernacl
Y PARCHEDIG MARY THORLEY

Dydd Sul, 25 Awst
Y Priordy
Y PARCHEDIG
DDR DESMOND DAVIES
Oedfa Gymun

NODER, OS GWELWCH YN DDA

*Gwasanaeth am 10 y bore (yn unig) ym mhob capel ac eithrio
Capel Penuel pan fydd y gwasanaeth yn dechrau am 10.30*

RHAGHYSBYSIAD

CYMDEITHAS DDIWYLLIADOL
CAPELI HEOL AWST A SMYRNA

CYNGERDD CÔR MEIBION MACHYNLLETH
Nos Sadwrn, 12 Hydref 2019 – 7 o'r gloch
yn
Heol Awst

Elw at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli





Gŵyl yr Orsedd Caerfyrddin 8-13 Gorffennaf 2019



***Dathlu 200 mlynedd uno'r Eisteddfod a Gorsedd y Beirdd
Gweithgareddau'r Dathlu***

1 Gorffennaf ymlaen	Arddangosfa'r Orsedd yn Llyfrgell Caerfyrddin Trefnwyr: Carys Edwads 07790035520 / Gethin Thomas 07773688769
1-13 Gorffennaf yn y Llyfrgell a'r Atom	Cyflwyniadau Iolo Morgannwg 'mewn cymeriad' Trefnwyr: Carys Edwads 07790035520 / Gethin Thomas 07773688769
Nos Fawrth 9 Gorffennaf am 6 yn y Llyfrgell	Agoriad swyddogol o Arddangosfa'r Orsedd gan Is Ganghellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Yr Athro Medwin Hughes, DL
Nos Fawrth, 9 Gorffennaf am 7.30 yn Y Llwyn Iorwg	Darlith gan y Dr. Geraint H. Jenkins, Aberystwyth ar "Iolo Morganwg ac Eisteddfod fawr Caerfyrddin 1819" Cadeirydd: Dr. Ioan Matthews Hyrwyddwyr: Sulwyn Thomas 01267 235385 / Alun Charles 01267 236037
Nos Fercher 10 Gorffennaf am 7 yn Y Llwyn Iorwg	Noson y Dathlu i gynnwys Dadorchuddio plac, meini'r Orsedd a'r ffenestr liw, anerchiad gan yr Archdderwydd, lansio cyfrol: <i>Ein Gŵyl, Ein Tref ac Iolo</i> (Pris: £5) gan Aled Evans a Tudur Dylan Jones, adloniant a bwffe, Tocynnau £12 Joan Thomas 07791 582330)
Nos Wener 12 Gorffennaf am 7, taith trwy'r dref i'r Llwyn Iorwg	'Cerddi'n Cerdded' a 'Noson Dafarn' Taith gerdd a chân o Feini'r Orsedd yn y parc i'r Llwyn Iorwg gyda 'Noson Dafarn' yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys. Mynediad trwy 'snoden' £7 Snodenni: Ann Lewis 07986267580 / Bryan Stephens 07821637589
Dydd Sadwrn 13 Gorffennaf Parc Myrddin trwy'r dydd.	Gŵyl Canol Dre gyda'r Orsedd fel thema Trefnir gan Fenter Iaith Gorllewin Sir Caerfyrddin 01239 712934 ymholiadau@mgsg.cymru

**Croeso i bawb. Gwybodaeth bellach gan
Geraint Roberts 07814701079 geraintroberts@btinternet.com**

ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN yn cyflwyno:

GŴYL Y SUL SBESIAL

Yn Yr
EGIN

14 GORFFENAF
2.00-3.30



Cyflwyniad gan MELERI CRAY
Pennaeth Cymdeithas y Beibl, Cymru



RHODRI DARCY
yn arwain sesiwn
i'r bobol ifanc:
FFILMIO a GOLYGU
yn y caffi seiber
(dewch â'ch cluniadur)



NIGEL DAVIES â Bwrlwm Bro i'r plant

Bydd cyfle i brynu te, coffi neu ddiod feddal a chacennau o'r caffi – a chael clonc!
Croeso Cynnes i bawb. Dewch i fwynhau!



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Gorffennaf		Medi	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
David Lloyd		Catrin H Jones	Gareth Gravell



BLODAU



Gorffennaf	7	Jan Davies	Medi	1	Ann Griffiths
	14			8	
	21	Margaret Lloyd Evans		15	Carys Edwards
	28			22	
				29	Janet Davies

PARATOI'R BWRDD CYMUN

Gorffennaf	7	Bore	Alwen Owen a Fiona Elias
Medi	1	Bore	Eleri Thomas a Delyth Davies



YMWELWYR



Gorffennaf / Awst	Nansi a Desmond Hayes
Med / Hydrefi	Thelma Evans a June Thomas



DARLLENWYR



Gorffennaf	7	Luned Voyle	Medi	1	
	14			8	Mwynwen Jones
	21	Eirlys Jones		15	Alwen Owen
	28	Glenys Thomas		22	Meleri Llwyd O'Leary
				29	



CYHOEDDWYR



Gorffennaf	Gareth Gravell	Medi	Catrin Heledd Jones
------------	----------------	------	---------------------

MIS AWST

Cymun – Alison Parsons Gofalwr – Is-bwyllgor yr Adeiladau



AR Sul cyntaf y mis clywyd canu o'r Priordy yn ystod y rhaglen **Dechrau Canu Dechrau Canmol** ar **S4C** a fu'n bennaf am ŵyl grefyddol **Llanw** a gynhaliwyd yn Ninbych-y-pysgod eleni. Ac yna gwelwyd aelodau yn y Priordy yn y gynulleidfa yng Nghapel Newydd Llandeilo ar raglen arall yn y gyfres yn trafod gwaith dyngarol, gan roi sylw i ddwy elusen allweddol, sef Achub y Plant a Bangla Cymru.

Mae un o'n teuluoedd wedi symud tŷ'n ddiweddar, sef Mari Grug a Gareth a'r plant Steffan a Tomos. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.



Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Siân Axford, Nigel Jenkins, Eleri Thomas ac Adrian Evans. Dymunwn yn dda iddynt a phawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Un o feirniaid Cystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019 oedd Elinor Wyn Reynolds. Yr enillydd oedd Iestyn Tyne - y person cyntaf erioed i 'ennill y dwbl' sef coron a chadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Daw'n wreiddiol o Ben Llyn ond mae'n byw yng Nghaernarfon erbyn hyn.

A phe baech wedi gwthio'r botwm coch ar S4C yn ystod yr wythnos, yna byddech wedi clywed llais **Elin Llwyd** yn disgrifio'r digwyddiadau yn Saesneg er mwyn helpu'r di-Gymraeg i fwynhau'r Eisteddfod!

Bu Syfi'n rhoi adroddiad am y cynllun cyfeillio rhwng ysgolion Sul a phlant Madagascar yng Nghyfarfodydd yr Undeb yn Rhyd-y-main. Mae hi wedi bod yn llythyr gyda merch o'r enw Kezia ym Madagascar a bellach mae plant ysgol Sul y Priordy hefyd yn llythyr gyda phlant sy'n byw yn y lloches i ferched Akany Avoko Faravohitra. Mae'r lloches yn un o'r prosiectau y buon ni'n codi arian ar eu cyfer drwy Apêl Madagascar.

Darllenon ni yn **Cwtch Myrddin** yn **Cwlwm** am lwyddiant Steffan Jones ar ddod yn ail yn nhlws Llenyddiaeth Eisteddfod Llangadog. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Bu Tim Hayes ar **Raglen Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru** yn adolygu'r tudalennau chwaraeon yn y papurau Sul. A bu Beca Hayes yn cyflwyno'r rhaglen **Canfod y Cadeiriau Coch** ar **Radio Cymru** gan fynd ar drywydd cadeiriau coch yr Arwiso ym 1969 er mwyn canfod ble maen nhw nawr.



Yng ngornest agoriadol rownd yr wyth olaf rhwng Timau Tir Iarll a'r Glêr ar **Y Talwrn** ar **Radio Cymru** roedd Tudur Dylan Jones yn aelod o'r tîm buddugol (Tir Iarll) a enillodd o un pwynt yn unig.

Gwelwyd Peter Hughes Griffiths ar **Heno** ar **S4C** yn dwyn atgofion am John Evans, Dre-fach, Felindre, a fu am flynyddoedd yn athro yn Ysgol Aber-banc cyn iddo ailbriodi yn 60 oed a mynd i gadw tafarn yn Nhre-fach a enwyd ar ei ôl, sef Tafarn John y Gwas – yr enw y byddai'r bardd, yr arweinydd a'r cynghorydd hynod hwn yn cael ei adnabod wrtho.



Yn **Golwg**, roedd erthygl ddiddorol am Catrin Wyn Davies yn edrych yn ôl ar ei chyfnod yn gwneud gwaith gwirfoddol yn ffisiotherapydd ym Mecsico. Ar hyn o bryd mae hi'n gweithio yn ardal Caerfyrddin ond yn bwriadu dychwelyd i Fecsico ym mis Tachwedd. Gyda chymorth elusen *Therapies Unite* mae hi'n gobeithio casglu offer arbenigol tros-ben sydd gan y Gwasanaeth Iechyd a'i anfon i Fecsico. Y gobath yw y bydd yr offer yn cyrraedd ar long ym mis Chwefror 2020 a hithau'n gallu'i ddosbarthu. Mae *Therapies Unite* yn gweithio ar y cyd gyda Phrifysgol Keele yng nghanolbarth Lloegr er mwyn i fyfyrwyr gael profiad ym maes ffisiotherapi cyn graddio. Maen nhw'n mynd i Fecsico i weithio am bum wythnos ola'r cwrs i gael eu hyfforddi gan Catrin, eu haddysgwr clinigol. Wel, pob hwyl i Catrin gyda'r gwaith gwerthfawr hwn.

Dwy a fu'n mentro pethau mawr er budd gwahanol elusennau oedd Ceri Haf Llwyd ac Elin Wyn. Bu Ceri'n deifio awyr gyda CFI Cymru er mwyn codi arian at **Ambiwlans Awyr Cymru** a chyflawni taith gerdded dros dri chop a fewn amser penodedig i helpu **Mind** fu camp Elin fel y gwelwch mewn man arall yn y Papur.



Un a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig (ffigur crwn) ar **9 Awst** yw David Lewis, sy'n cyfrannu yn y rhifyn hwn o'r Papur. Yn wir, mae'n flwyddyn o ben-blwyddi arwyddocaol yn hanes David a'i deulu eleni gyda Trystan, un o'i feibion yn cyrraedd 50 oed a Morgan a Joseph, wyrion, yn dod yn 18 oed! Daeth y teulu ynghyd i fwynhau'r holl ddathlu ym Mhlas Mawr rhwng Bwimares a Phenmon, ar Ynys Môn ychydig yn ôl. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

AC / GLOI - bydd **12 Gorffennaf 2019** yn ddiwrnod arbennig i Sulwyn a Glenys Thomas gan y byddant yn dathlu pen-blwydd eu priodas aur. Ein llongyfarchiadau mawr iddynt oddi wrthym i gyd yn y Priordy!



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Medi i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Thelma Evans ac Elin Wyn am y lluniau'r mis hwn





Y SULLIADUR



Gorffennaf	7	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	14	<i>Bore</i>	Sul y Cyfundeb Manylion y tu mewn	
	21	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	28	<i>Bore</i> <i>P'nawn</i>	Y Parchedig Gwyn Elfyn Jones Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'r Parchedig Gwyn Elfyn Jones	

Medi	1	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	8	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	15	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Casgliad at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen) Ymarfer ar gyfer y Gymanfa Ganu yn y Priordy am 7	
	22	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ymarfer ar gyfer y Gymanfa Ganu yn y Priordy am 7	
	29	<i>Bore</i> <i>Hwyr</i>	Oedfa Hwyl Mawl Medi i'r Plant a'r Bobl Ifainc yn y Priordy am 10 Cymanfa Ganu i'r Oedolion yn y Priordy am 5 Manylion pellach y tu mewn	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant P – Parti Diwedd Tymor BB -Bwrlwm Bro HMM – Hwyl Mawl Medi								
Gorffennaf				Medi				
7	14	21	28	1	8	15	22	29
P	BB	-	-	CP	✓	✓	✓	HMM



TREFNIADAU MIS AWST
Gweler y tu mewn

